

10 - Gwytherin i Bandy Tudur 3.4 milltir/5.5 km

Mae dau opsiwn o'r fan yma.

1. Y Brif Llwybr – Cymerwch y llwybr troed gyda'r arwyddion arno sydd wrth ochr y Lion Inn a gerllaw'r bocs ffôn a'r sedd i fynd i fynyr allt drwy lannerch goediog i ddod allan mewn cae. Dydy'r llwybr yma ddim yn amlwg iawn ac os byddwch yn gadael y goedwig cyn y top, cerddwch gyda hi (y goedwig) ar eich ochr chwith. Cerddwch i fynyr allt ac anelu am gamfa ar ochr chwith ffermdy (adfeiliedig) Penygraig. Ewch dros y gamfa a thoi i'r dde tu ôl i'r adeiladau at gamfa arall ac i'r trac mynediad. Trowch i'r chwith ar hyd hwn i dop yr allt lle mae'n gwyro i'r dde. Trowch i'r dde ac ewch drwy'r giât i'r lôn. Mewn oddeutu 70 metr croeswch drosodd i'r chwith tuag at y ffens. Cerddwch ochr yn ochr â'r ffens a thrwy giât mochyn. Croeswch y gamfa yn y ffens i gyrraedd y ffordd.

Trowch i'r chwith ar hyd y lôn i'r gyffordd yn Nhŷ-uchaf-i'r-ffordd

(parhad isod)

2 Drwy Bennant – Maen nhw'n dweud mai yn y dyffryn anghysbell yma yr oedd yr Abaty lle treuliodd Santes Gwenffrewi ei blynyddoedd olaf. Os oes unrhyw beth ar ôl ohono, ychydig iawn sydd. I ymweld â'r safle yma, cymerwch y ffordd heibio i'r Lion Inn ac i fyny i'r cwm. Anwybyddwch y ffordd sy'n mynd i fynyr allt ac ewch i lawr yr allt i gyrraedd ffordd arall sy'n mynd i ffwrdd i'r dde.

Dyma'r ffordd fynediad i Daipellaf. Dilynwch hon heibio i'r fferm a'r adeiladau. Mae safle tebygol yr Abaty wedi ei farcio gan dwmpath mawr o gerrig ar eich ochr chwith. Parhewch i fynyr trac yma drwy gatau i'r lôn a throwch i'r dde. Cymerwch y llwybr ar y chwith drwy giât a dilynwch drwy ddwy giât arall yn syth o'ch blaen i fynd i ddarn garw o gefn gwlad – mae'r llwybr yn y fan yma'n ddarniog ac yn aneglur.

O'r diwedd byddwch yn dod at ffens ar eich ochr chwith – dilynwch hon at gamfa. Ewch dros honno, anelwch am y trac o'ch blaen a dilynwch hwn i'r ffordd yn Nhŷ-uchaf-i'r-ffordd. Nodwch bod y darn yma dros ddarn garw o gefn gwlad sy'n gallu bod yn eithriadol wlyb ac anodd. Nodwch hefyd nad yw'r darn yma wedi ei gyfeirbwyntio gyda marcwyr Taith y Pererin.

Trowch i'r dde a chymryd y lôn tuag at y ffermydd. Ar ôl pasio'r fynedfa i Fryn Pair Uchaf dilynwch y ffordd nes bydd yn gwyro i'r chwith. Yma ewch drwy'r giât o'ch blaen. Ar ôl y drydedd giât ewch i'r chwith ar hyd y gwrych ac yna trowch i'r dde gyda'r gwrych a'r goedwig ar eich ochr dde. Dilynwch y llwybr ceffyl yma i ymuno â'r lôn i fynd heibio'r fynedfa i Dŷ Celyn. Yn fuan ar ôl pasio giât ar eich ochr chwith ewch dros y gamfa, sydd hefyd ar yr ochr chwith, a dilynwch y llwybr drwy ddwy giât mochyn i lawr i Bandy Tudur.